



Da byw

Hyfforddiant Achrededig



123 Nifer yr unigolion **116** Nifer y busnesau

Roedd y cyrsiau'n cynnwys:

Cwrs	Nifer yr hawliadau
Ffrwythloni Artiffisial (DIY)	32
Cymorth Cyntaf i Draed (Gwartheg)	29
Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid	21
Cwrs Cneifio Uwch y DU gan Elite Wool Industry Training	13
Defnyddio Dip defaid yn ddiogel	11
Sganio Gwartheg	4
Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel	4

Adborth: "Gwybodaeth a fydd yn galluogi ein busnes i gydymffurfio â deddfwriaeth, sicrhau bod iechyd a diogelwch ein stoc a ni ein hunain yn cael eu cynnal i'r safonau uchaf a hefyd yn lleihau ein hól troed carbon."

Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiodd trosglwyddo gwybodaeth ar fridio defaid ag ymwrthedd i barasitiaid, a chynhaliwyd tri digwyddiad ar fferm ledled Cymru i drafod a lledaenu canlyniadau prosiect 'Bridio i wrthsefyll llyngyr'.

Y neges allweddol i fynd adref oedd, trwy gymryd rhan yn y prosiect, y gallai diadelloedd Rhaglen Geneteg Defaid Cymru nodi hyrddod y mae eu hepil wrthsefyll her llyngyr a gollwng llai o wyau ar borfa. Er enghraifft, ar y fferm isod, roedd gwahaniaeth o **35% yn nifer yr wyau a gollwyd gan epil y ddau hwrdd stoc hyn.**

	EBV for FEC S	EBV for IgA	Paracite Plus	Average Progeny faecal Egg Count
Ram A	-0.22	0.10	118	651 (n=21)
Ram B	0.21	0.01	94	931 (n=22)
Flock Av.				781 (n=84)

Podlediad



Pennod 103: Cloffni mewn gwartheg godro



Sut mae gwahanol ddulliau o drosglwyddo gwybodaeth yn dylanwadu ar newid ymddygiad mewn cynhyrchwyr llaeth a chyffredinolrwydd cloffni yn eu buchesi. Yn ymuno â Cennydd Jones mae Sara Pedersen Arbenigwr RCVS mewn Iechyd a Chynhyrchu Gwartheg yn y bennod gyntaf hon mewn cyfres o benodau sy'n edrych ar sut y dylanwadodd gwahanol ddulliau o gyfnewid gwybodaeth am ganfyddiad, gwybodaeth, ymddygiad a sut roedd hyn yn gysylltiedig â newidiadau mewn cyffredinolrwydd cloffni.



Pennod 107: Cloffni mewn Gwartheg Llaeth: Pennod 2

Sara Pedersen sy'n ymweld â Fferm Maenhir, Hendy-gwyn ar Daf lle mae'r tad a'r mab Richard ac Iwan Twose yn cynnal cyfarfod Grŵp Agrisgôp. Ymunwn â Sara a'r ffermydd ar sail grŵp sydd wedi'u lleoli yn Sir Benfro i glywed sut y maent yn tynnu ar aelodau eraill o'r grŵp ac yn rhannu gwybodaeth i roi newidiadau cadarnhaol ar waith yn nifer yr achosion o gloffni mewn gwartheg ar eu ffermydd.

E-ddysgu



97 Unigolion a Gefnogwyd

54 Busnesau a Gefnogwyd

Modiwlau wedi'u Cwblhau	Unigolion a Hyfforddwyd
Uned Orfodol: Cloffni mewn Gwartheg	37
Uned Orfodol: Ffrwythloni Artiffisial	24
Ymwrthedd i Wrthfotigau	3
Cadw Gwenyn – Cyflwyniad	2
Erthylu mewn Mamogiaid	2
Creu Rhaglen Fridio ar gyfer y Ddiadell Ddefaid	2
Defnyddio Anthelmintigau yn Gynaliadwy	2

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth



Opsiynau Amgen ar gyfer deunydd gorwedd i wartheg llaeth

Dosbarthiadau meistr



Cydweithio â'r CFfl i gyflwyno gweithdai hwsmonaeth moch ac afiechyd ar y fferm i'w prif gystadleuwyr porc CFfl sy'n ceisio annog newydd-ddyfodiaid ifanc i ffermio a darparu ffrwd arian ychwanegol i newydd-ddyfodiaid ar ffermydd.

Rhwydwaith Ein Ffermydd



Mae prosiectau ar y fferm yn cynnwys:



Bwydo llaeth pontio i loi newydd-anedig

Grwpiau Trafod

Cynhaliwyd 35 cyfarfodydd grwpiau trafod



35

Cyfarfod

203

Yn bresennol



80 awr o DPP

Geiriau allweddol: Meincnodi, Perfformiad da byw, Enillion Pwysau Byw Dyddiol (DLWG), Ffrwythlondeb

Gwasanaeth Cynghori

Achosion a gefnogir gan wasanaeth:



30

Technegol – Lles Iechyd Anifeiliaid a Bioddiogelwch

3

Technegol – Rheoli Da Byw a Pherfformiad

277

Technegol – Cyngor Milfeddygol Arbenigol

Agrisgôp

Mae 6 o gyfarfodydd Agrisgôp wedi cael eu cynnal



46

Yn bresennol



13 awr

Roedd y grwpiau a gyfarfu yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar:

- Cyfarfu'r grŵp cloffni ar-lein i drafod yr argymhellion diweddaraf a arweiniwyd gan ymchwil mewn dylunio ac awyru siediau gwartheg llaeth er mwyn mynd i'r afael â straen gwres a thrafodwyd hefyd addasiadau newydd i siediau pontio.
- Cyfarfu grŵp TB Sir Benfro i gael gwell dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision pasteureiddio colostrwm a llaeth am yr wythnos gyntaf.
- Nod y cyfarfod grŵp cloffni hwn oedd adolygu'r data iechyd traed cyfredol ar ffermydd un o aelodau'r grŵp a phennu meysydd i'w gwella a pha rai y gellid eu gwella ymhellach. Trafodaeth ynghylch data ac yna taith o amgylch y fferm i drafod llwyddiannau a phennu heriau. Aseswyd ffactorau risg, a datblygwyd datrysiadau ymarferol. Datblygwyd cynllun gweithredu i helpu i leihau cloffni ymhellach ar y fferm.

Mentora



65 unigolyn wedi cael mynediad at fentora



372 awr o fentora



158 sesiwn fentora



49% o'r holl sesiynau'n ymwneud â'r thema hon

Mae'r pynciau a drafodir mewn Sesiynau Mentora yn cynnwys:

Trin cŵn defaid

Cadw gwenyn

Godro defaid

Bridiau biff ar gyfer pori cadwraethol

Cneifio

Coleri Ffensio Rhithwir

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora yn cynnwys:

- Aethom trwy hanfodion sylfaenol wrth drin defaid a gosod offer cyn edrych ar y patrwm cneifio, gwaith traed, a sut i weithio orau o amgylch y famog. Yna fe wnaethom ymarfer er mwyn i'r mentai gael teimlad o'r darn llaw a dysgu ei gadw'n fflat ar y famog. Datblygodd y mentai yn dda a gallai gneifio dafad yn llwyddiannus erbyn diwedd y dydd.
- Dangosodd y mentai beth roedd hi wedi bod yn gweithio arno gyda Pip (ci defaid). Byddai'r defaid yn glynu yng nghornel y padog ac roedd Pip yn ymdrechu i'w cael oddi yno. Dangosais i'r mentai ble i sefyll i helpu Pip i fynd o'u cwmpas a'u tynnu allan o'r gornel, unwaith y gwnaed hyn dechreuodd Pip ddeall yr hyn a ofynnwyd.
- Roedd y mentai am leihau colledion a bridio cytrefi newydd mewn ffordd fwy cynaliadwy. Buom yn trafod:
 - dulliau effeithiol o hollti cytref i greu cwch gwenyn newydd
 - bwydo ar gyfer y Gaeaf
 - atal heidio
 - arolygiad rheolaidd a thrylwyr o gychod gwenyn
 - ymuno dau gychod gwenyn
 - trin ar gyfer varroa
 - cofrestru gyda Beebase

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cyflwynwyd 22 o weithdai ledled Cymru gan filfeddygon lleol cymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, gyda 271 o fynychwyr yn ymdrin ag amrywiaeth o deitlau gweithdai gan gynnwys.



22

Gweithdai wedi'u cyflwyno

271

Unigolion a gefnogir

Pynciau gweithdai wedi'u cynnwys:

Ymwrthedd i Wrthfotigau

Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)

Rheoli Ffrwythlondeb y Ddiadell

Gwella Perfformiad Wŷyn ar ôl Diddyfnu

Cloffni mewn Defaid

Deall Clefyd Johne's

